Yr Amodau ar gyfer Derbyn Sgil-fudd-daliadau a Sgil-gynlluniau Eraill

Mae'r tabl yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer sgil-fudd-daliadau a sgil-gynlluniau eraill fel ym mis Tachwedd 2019. Ewch i'r gwefannau a restrir i weld yr amodau llawn.

Budd-dal / Cynllun	Amodau ar gyfer eu Derbyn	Mwy o Wybodaeth
ADDYSG A SGILIAU		
Prydau Ysgol am Ddim	Mae gan blant y mae eu rhieni yn derbyn un o'r taliadau cymorth canlynol yr hawl i gael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru: ▪ Credyd Cynhwysol ▪ Cymhorthdal Incwm ▪ Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm ▪ Cymorth o dan Ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 ▪ Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm ▪ Credyd Treth Plant (cyn belled nad ydynt yn gymwys am y Credyd Treth Gwaith ac nad yw eu hincwm blynyddol yn fwy na £16,190 (Cyllid a Thollau ei Mawrhydi sy'n gyfrifol am asesu lefel yr incwm blynyddol)). ▪ Yr elfen warant o Gredyd Pensiwn y Wladwriaeth. ▪ 'Parhad' y Credyd Treth Gwaith – y taliad y gallai rhywun ei gael am bedair wythnos ar ôl peidio â bod yn gymwys am y Credyd Treth Gwaith. ▪ Mae pobl ifanc sydd eu hunain â'r hawl i'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n seiliedig ar Incwm, y Credyd	Rhoddir prydau ysgol am ddim pan fydd y rhiant neu'r disgybl yn bodloni'r amodau a bod cais wedi'i wneud gan y rhiant neu'r disgybl neu ar ei ran. Cewch fwy o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru: prydau-ysgol-am-ddim-cwestiynau-cyffredin **Pwysig:** Caiff yr amodau ar gyfer derbyn prydau ysgol am ddim eu hadolygu a'u newid wrth i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno a chymryd lle'r budd-daliadau presennol. Llwyth achosion / Gwariant cyraeddiadau-ar-hawl-i-brydau-am-ddim

Yr Amodau ar gyfer Derbyn Sgil-fudd-daliadau a Sgil-gynlluniau Eraill

Budd-dal / Cynllun	Amodau ar gyfer eu Derbyn	Mwy o Wybodaeth
	Cynhwysol, y Cymhorthdal Incwm neu'r Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar Incwm yn gymwys hefyd i gael Prydau Ysgol am Ddim.	
Brecwastau am Ddim mewn Ysgolion Cynradd	Mae pob plentyn ysgol gynradd yn gymwys i gael Brecwast am Ddim	Cewch fwy o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru: bwyd-a-diodydd-mewn-ysgolion
Llaeth i Blant Ysgolion Cynradd	Mae pob plentyn ysgol gynradd yn y Cyfnod Sylfaen yn gymwys i gael llaeth am ddim os ydy'r ysgol yn cymryd rhan yn y cynllun llaeth i ysgolion. Mae pob plentyn ysgol gynradd yng Nghyfnod Allweddol 2 yn gymwys i gael llaeth gyda chymhorthdal os ydy'r ysgol yn cymryd rhan yn y cynllun llaeth i ysgolion.	Cewch fwy o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru: bwyd-a-diodydd-mewn-ysgolion
Tripiau Preswyl Ysgolion	Ni fydd plant rhieni / gofalwyr sy'n derbyn y budd-daliadau canlynol yn gorfod talu am gost llety tripiau preswyl yn ystod oriau ysgol. ▪ Cymhorthdal Incwm ▪ Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm ▪ Credyd Cynhwysol ▪ Elfen warant Credyd Pensiwn y Wladwriaeth ▪ Plant rheini/gofalwyr sy'n derbyn unrhyw fudd-dal neu lwfans arall neu sydd â'r hawl i gael credyd treth o dan	Bydd gofyn ichi drafod hyn â'ch ysgol. Cewch fwy o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru:: addysg-a-sgiliau

Yr Amodau ar gyfer Derbyn Sgil-fudd-daliadau a Sgil-gynlluniau Eraill

Budd-dal / Cynllun	Amodau ar gyfer eu Derbyn	Mwy o Wybodaeth
	Ddeddf Credydau Treth 2002 neu elfen o gredyd treth o'r fath, a bennir gan reoliadau o dro i dro ar gyfer unrhyw gyfnod sy'n cwmpasu'n llwyr neu'n rhannol yr amser a dreulir ar y trip. Ar hyn o bryd, y budd-daliadau canlynol a bennir: Taliad cymorth o dan Ran 6 Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 - Credyd Treth Plant, cyn belled na dderbynnir Credyd Treth Gwaith ac nad yw incwm y teulu (fel y'i asesir gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi) yn fwy na £16,190 – h.y. plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n Seiliedig ar Incwm	
Grant Iwnifform Ysgol	Mae'r Grant Iwnifform Ysgol yn helpu disgyblion cymwys i brynu iwnifform ysgol. Mae'r cynllun wedi'i dargedu at ddisgyblion sy'n dechrau blwyddyn 7 yn yr ysgol uwchradd sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Hefyd, disgyblion 11 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol mewn ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau anghenion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.	Dylech wneud cais i'ch awdurdod lleol am y grant hwn. Cewch fwy o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru: grant-datblygu-disgyblion-mynediad Llwyth achosion / Gwariant Aros am ddata
Cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA) Cymru	Gall myfyrwyr newydd fod yn gymwys am £30 o EMA yr wythnos os ydyn nhw: ▪ dros oed ysgol orfodol ▪ yn 16, 17 neu 18 oed ar neu cyn 31 Awst	Er mwyn cael ffurflen gais am EMA a nodiadau gwybodaeth: • ewch i wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFW) • cyllidmy fyrwyr cymru

Yr Amodau ar gyfer Derbyn Sgil-fudd-daliadau a Sgil-gynlluniau Eraill

Budd-dal / Cynllun	Amodau ar gyfer eu Derbyn	Mwy o Wybodaeth
	▪ yn byw yng Nghymru fel arfer ▪ yn astudio cwrs academaidd neu alwedigaethol cymwys amser llawn (rhaid gofyn i'r ysgol neu'r coleg a yw'r cwrs yn gymwys) Rhaid iddyn nhw hefyd fodloni un o'r amodau canlynol: ▪ mae incwm yr aelwyd yn £20,817 neu lai ▪ bod pobl ifanc eraill ar yr aelwyd sydd o dan 16 oed ac sy'n gymwys am Fudd-dal Plant a bod incwm yr aelwyd yn £23,077 neu lai ▪ bod pobl ifanc eraill ar yr aelwyd sy'n 16-20 oed, mewn addysg amser llawn ac sy'n gymwys am Fudd-dal Plant a bod incwm yr aelwyd yn £23,077 neu lai. I gael y lwfans EMA wythnosol, rhaid bodloni'r amcanion o ran presenoldeb, ymddygiad a chynnydd a nodir yn y cytundeb dysgu rhwng y myfyriwr a'r ysgol neu goleg.	• ffoniwch Cyllid Myfyrwyr Cymru 0300 200 4050 • gofynnwch i'ch ysgol neu'ch coleg. Bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cysylltu â myfyrwyr sydd eisoes yn derbyn EMA ynghylch eu lwfans EMA am y flwyddyn academaidd nesaf. Llwyth achosion / Gwariant lwfansau-cynhaliaeth-addysg-lca-ddyfarnwyd-yng-nghymru
Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (GDLIC AB) (Grant Dysgu'r Cynulliad AB gynt)	Gall myfyrwyr newydd fod yn gymwys am Grant Dysgu (Addysg Bellach) o hyd at £1,500 ar gyfer cyrsiau amser llawn a £750 ar gyfer cyrsiau rhan-amser os: • ydyn nhw'n 19 oed neu fwy ar 1 Medi ▪ bod y cwrs mewn ysgol neu goleg perthnasol yn para 275 o oriau; ac yn arwain at gymhwyster sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol hyd at Lefel 3 (rhaid gofyn i'r ysgol neu'r coleg a yw'r cwrs yn gymwys)	Er mwyn cael ffurflen gais am y Grant Dysgu (Addysg Bellach) a nodiadau gwybodaeth: • ewch i wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFW) • cyllid myfyrwyr cymru

Yr Amodau ar gyfer Derbyn Sgil-fudd-daliadau a Sgil-gynlluniau Eraill

Budd-dal / Cynllun	Amodau ar gyfer eu Derbyn	Mwy o Wybodaeth
	• bod incwm yr aelwyd yn £18,370 neu lai • eu bod yn byw yng Nghymru fel arfer I gael y Grant Dysgu (Addysg Bellach), rhaid bodloni'r amcanion o ran presenoldeb, ymddygiad a chynnydd a nodir mewn cytundeb grant dysgu rhwng y myfyriwr a'r ysgol neu'r coleg.	• ffoniwch Cyllid Myfyrwyr Cymru 0300 200 4050 • gofynnwch i'ch ysgol neu'ch coleg. Bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cysylltu â myfyrwyr sydd eisoes yn derbyn y Grant Dysgu (Addysg Bellach) ynghylch eu grant am y flwyddyn academaidd nesaf. Llwyth achosion / Gwariant grantiau-dysgu-llywodraeth-cymru-addysg-bellach-medi-2018-i-awst-2019
YNNI		
Nyth/Nest	Fe allech fod yn gymwys i wneud cais i wella ynni'ch cartref o dan y cynllun os: – os ydych yn berchen ar eich cartref neu'n ei rentu'n breifat; a'ch – bod yn byw 'mewn cartref nad yw'n ynni effeithlon <http://nestwales.org.uk/Hard-to-heat-home> (gradd E, F neu G); a'ch – bod chi neu rywun sy'n byw gyda chi yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol sy'n dibynnu ar brawf modd:	I wneud cais: • Ffoniwch 0808 808 2244 (am ddim ar ffôn symudol a llinell dir) • Defnyddiwch yr adran "cysylltwch â ni" ar wefan Nyth nyth.llyw.cymru

Yr Amodau ar gyfer Derbyn Sgil-fudd-daliadau a Sgil-gynlluniau Eraill

Budd-dal / Cynllun	Amodau ar gyfer eu Derbyn	Mwy o Wybodaeth
	- Credyd Treth Plant: lle bo incwm yr aelwyd yn £16,105 neu lai y flwyddyn - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (nid yw gostyngiadau a disgowntiau'n gymwys ar eu pennau eu hunain) - Budd-dal Tai - Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n Seiliedig ar Incwm - Cymhorthdal Incwm - Credyd Pensiwn – cynilion a gwarant - Credyd Cynhwysol - Credyd Treth Gwaith lle nad yw incwm blynyddol yr aelwyd yn fwy na £16,105	
Cynhesrwydd Fforddiadwy	Mae'r cynllun Cynhesrwydd Fforddiadwy yn gynllun Llywodraeth y DU a reolir gan Ofgem - dolen at eu gwefan wedi ei atodi isod: affordable-warmth-group-guidance-note	Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi ar draws Cymru drwy Raglen Cartrefi Cynnes. Cymorth yn cael ei gyflwyno yn bennaf trwy NEST ac Arbed - sy'n cefnogi ardal, cynlluniau effeithlonrwydd ynni mewn cymunedau difreintiedig.

Yr Amodau ar gyfer Derbyn Sgil-fudd-daliadau a Sgil-gynlluniau Eraill

Budd-dal / Cynllun	Amodau ar gyfer eu Derbyn	Mwy o Wybodaeth
		Arbed yn brosiect Llywodraeth Cymru yn gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi mewn ardal er mwyn lleihau biliau ynni ac i wneud cartrefi yn gynnes ac yn gyfforddus. Gan fod Arbed yn gynllun sy'n seiliedig ar ardal, ni all deiliaid tai wneud cais yn uniongyrchol am gymorth. Cronfeydd prosiectau Arbed a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Gall mesurau a ddarperir o dan y cynllun yn cynnwys: • gwella insiwleiddio mewn eiddo sy'n bodoli eisoes • osod boeler newydd • newid cartrefi i fathau o danwydd yn fwy fforddiadwy neu adnewyddadwy • gosod systemau ynni-effeithlon. Arbed hefyd yn creu cyfleoedd lleol ar gyfer busnesau effeithlonrwydd ynni, a swyddi lleol. Anfonwch e-bost yn y cyfeiriad isod ar gyfer unrhyw ymholiadau ar y Rhaglen Arbed:

Yr Amodau ar gyfer Derbyn Sgil-fudd-daliadau a Sgil-gynlluniau Eraill

Budd-dal / Cynllun	Amodau ar gyfer eu Derbyn	Mwy o Wybodaeth
		arbed@wales.gsi.gov.uk.
CYNHWYSIANT ARIANNOL		
Cronfa Cymorth Dewisol	Pwrpas y gronfa yw cynnig taliadau neu gymorth mewn da fel cymorth argyfwng i bobl lle gwelir bygythiad i'w hiechyd a'u lles neu i alluogi pobl i fyw'n annibynnol neu i barhau i fyw'n annibynnol. Bydd y taliadau ar gael i bobl nad oes ganddynt fodd i dalu costau byw'r funud honno. Nid eu diben yw talu am gost treuliau sy'n parhau. O fewn y cynllun, mae dau fath o grant (na fydd angen eu talu'n ôl): • Taliad Cymorth mewn Argyfwng i roi cymorth mewn argyfwng neu pan geir bygythiad byw i iechyd neu les. Gallai unrhyw un dros 16 oed fod yn gymwys am y taliadau hyn i'w helpu i dalu costau sy'n codi oherwydd argyfwng neu drychineb. • Taliadau Cymorth Unigol i gwrdd ag angen brys, er mwyn galluogi neu helpu pobl fregus i greu cartref neu barhau i fyw'n annibynnol yn y gymuned. I fod yn gymwys, rhaid i'r ymgeisydd fodloni'r canlynol: - Bod yn gymwys a derbyn budd-daliadau lles sy'n seiliedig ar incwm: sef Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar Incwm; Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n seiliedig ar Incwm; Credyd Pensiwn neu - ar fin gadael sefydliad neu gartref gofal o fewn 6 wythnos ac yn debygol o fod yn gymwys am	Cewch fwy o wybodaeth, gan gynnwys manylion sut i wneud cais, ar wefan Llywodraeth Cymru: discretionary-assistance-fund-daf

Yr Amodau ar gyfer Derbyn Sgil-fudd-daliadau a Sgil-gynlluniau Eraill

Budd-dal / Cynllun	Amodau ar gyfer eu Derbyn	Mwy o Wybodaeth
	fudd-daliadau lles sy'n seiliedig ar incwm ar ôl gadael.	
IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL		
Triniaeth Ddeintyddol y GIG	Gallwch gael triniaeth ddeintyddol am ddim gan y GIG os byddwch, pan fydd y driniaeth yn dechrau: – o dan 18 oed; – yn 18 oed ac mewn addysg amser llawn; – yn feichiog neu wedi cael babi yn y 12 mis cyn i'r driniaeth ddechrau; – yn glaf mewnol gyda'r GIG a bod y driniaeth yn cael ei rhoi gan ddeintydd yr ysbyty; – yn un o allgleifion Gwasanaethau Deintyddol Ysbyty'r GIG (*Efallai y bydd tâl am ddannedd dodi neu bontydd)* *Neu pan fydd y driniaeth yn dechrau neu pan godir y tâl arnoch chi:* – Yn cael neu'ch bod wedi'ch cynnwys yn hawl rhywun sy'n cael: – Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar Incwm, – Credyd Cynhwysol	Cewch fwy o wybodaeth yma: ffioedd-deintyddol-ac-eithriadau-y-gwasanaeth-iechyd-gwladol-gig Darganfyddwch a ydych yn gymwys i gael cymorth gyda chostau'r GIG drwy'r Cynllun Incwm Isel a sut i gael tystysgrif cynllun-incwm-isel-cymorth-gyda-chostau-iechyd-y-gig Defnyddiwch y gwasanaeth hwn i wirio pa gymorth y gallech chi ei gael a sut i wneud cais. cymorth-gyda-chostau-gofal-iechyd-y-gig

Yr Amodau ar gyfer Derbyn Sgil-fudd-daliadau a Sgil-gynlluniau Eraill

Budd-dal / Cynllun	Amodau ar gyfer eu Derbyn	Mwy o Wybodaeth
	– Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n Seiliedig ar Incwm neu warant Credyd Pensiwn – bod gennych dystysgrif eithrio credyd treth GIG ddilys neu'r hawl iddi; – eich bod wedi'ch enwi ar dystysgrif HC2W ddilys. Gallwch gael archwiliadau deintyddol am ddim hefyd os ydych: – o dan 25 oed ar ddiwrnod eich archwilio yng Nghymru; neu – yn 60 oed neu fwy ar ddiwrnod eich archwilio yng Nghymru. Bydd yn rhaid ichi dalu'r tâl priodol am unrhyw driniaeth yn sgil yr archwiliad am ddim.	
Talebau Optegol GIG: Profion Llygaid am ddim	Gallwch gael prawf llygaid am ddim os: – ydych o dan 16; – mewn addysg amser llawn a'ch bod yn 16, 17 neu 18 oed; – yn 60 oed neu fwy; – yn dioddef o lawcoma; – yn 40 oed neu fwy ac yn rhiant, brawf, chwaer, mab neu ferch claf sy'n dioddef o lawcoma, neu	Cewch fwy o wybodaeth yma: cymorth-gyda-chostau-gofal-llygaid-y-gig Darganfyddwch a ydych yn gymwys i gael cymorth gyda chostau'r GIG drwy'r Cynllun Incwm Isel a sut i gael tystysgrif cynllun-incwm-isel-cymorth-gyda-chostau-iechyd-y-gig

Yr Amodau ar gyfer Derbyn Sgil-fudd-daliadau a Sgil-gynlluniau Eraill

Budd-dal / Cynllun	Amodau ar gyfer eu Derbyn	Mwy o Wybodaeth
	– bod ophthalmolegydd wedi dweud bod risg ichi gael glawcoma; – yn dioddef o ddiabetes; – wedi'ch cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall; – bod angen lensys cymhleth arnoch; – bod eich profion llygaid yn cael eu cynnal fel arfer yn adran lygaid yr ysbyty fel rhan o'r gofal am afiechyd y llygaid; Rydych yn cael neu'ch bod wedi'ch cynnwys yn hawl rhywun sy'n cael: – Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm – Credyd Cynhwysol – Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n Seiliedig ar Incwm Neu Warant Credyd Pensiwn – bod gennych dystysgrif eithrio credyd treth GIG ddilys neu'r hawl iddi; – eich bod wedi'ch enwi ar dystysgrif HC2W ddilys.	Defnyddiwch y gwasanaeth hwn i wirio pa gymorth y gallech chi ei gael a sut i wneud cais. cymorth-gyda-chostau-gofal-iechyd-y-gig

Yr Amodau ar gyfer Derbyn Sgil-fudd-daliadau a Sgil-gynlluniau Eraill

Budd-dal / Cynllun	Amodau ar gyfer eu Derbyn	Mwy o Wybodaeth
Talebau Optegol y GIG: Help tuag at Gost Sbectols neu Lensys Cyffwrdd	Gallwch gael help at gost sbectols neu lensys cyffwrdd os: – ydych o dan 16; – mewn addysg amser llawn ac yn 16, 17 neu 18 oed; – bod angen lensys cymhleth arnoch Eich bod yn cael neu'ch bod wedi'ch cynnwys yn hawl rhywun sy'n cael: – Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm – Credyd Cynhwysol – Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n Seiliedig ar Incwm neu Warant Credyd Pensiwn – bod gennych dystysgrif eithrio credyd treth GIG ddilys neu'r hawl iddi; – eich bod wedi'ch enwi ar dystysgrif HC2W ddilys. Pwysig: Os ydy'ch sbectols neu'ch lensys cyffwrdd yn costio mwy na gwerth eich taleb, bydd yn rhaid ichi dalu'r gwahaniaeth.	Cewch fwy o wybodaeth yma: cymorth-gyda-chostau-gofal-llygaid-y-gig Darganfyddwch a ydych yn gymwys i gael cymorth gyda chostau'r GIG drwy'r Cynllun Incwm Isel a sut i gael tystysgrif cynllun-incwm-isel-cymorth-gyda-chostau-iechyd-y-gig Defnyddiwch y gwasanaeth hwn i wirio pa gymorth y gallech chi ei gael a sut i wneud cais. cymorth-gyda-chostau-gofal-iechyd-y-gig
Costau Teithio Cleifion y GIG	Gallwch gael help gyda'r costau teithio angenrheidiol i dderbyn triniaeth y GIG o dan ofal eich ymgynghorydd, os: ▪ ydych wedi'ch cynnwys yn asesiad rhywun sy'n cael:	Cewch fwy o wybodaeth yma: cynllun-incwm-isel-cymorth-gyda-chostau-iechyd-y-gig

Yr Amodau ar gyfer Derbyn Sgil-fudd-daliadau a Sgil-gynlluniau Eraill

Budd-dal / Cynllun	Amodau ar gyfer eu Derbyn	Mwy o Wybodaeth
	– Cymhorthdal Incwm, – Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm, – Credyd Cynhwysol (Nid yw Budd-dal Analluedd na Lwfans Byw'n Anabl yn cyfrif gan nad ydyn nhw'n dibynnu ar incwm), – Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm – Gwarant Credyd Pensiwn ▪ Oes gennych dystysgrif eithrio credyd treth GIG ddilys neu hawl iddi ▪ Ydych wedi'ch enwi ar dystysgrif HC2W ddilys (yn cynnwys teithiau plant dibynnol). ▪ Ydych yn bensiynwr rhyfel a bod eich triniaeth ar gyfer anabledd sydd wedi'i dderbyn.	Defnyddiwch y gwasanaeth hwn i wirio pa gymorth y gallech chi ei gael a sut i wneud cais. cymorth-gyda-chostau-gofal-iechyd-y-gig
Presgripsiynau am ddim y GIG	Gallwch gael presgripsiynau am ddim trwy'r GIG yng Nghymru os pan roddwyd y presgripsiwn: ▪ bod gennych ffurflen bresgripsiwn o Gymru; ▪ bod gennych ffurflen Seisnig gyfatebol (FP10) a cherdyn hawlio dilys; ▪ bod gennych ffurflen bresgripsiwn gyfatebol (e.e. o Loegr/yr Alban) a'ch bod ar un o'r rhestrau eithrio ar y cefn.	Cewch fwy o wybodaeth ar wefan Costau Iechyd Cymru: presgripsiwn-am-ddim Defnyddiwch y gwasanaeth hwn i wirio pa gymorth y gallech chi ei gael a sut i wneud cais. cymorth-gyda-chostau-gofal-iechyd-y-gig

Yr Amodau ar gyfer Derbyn Sgil-fudd-daliadau a Sgil-gynlluniau Eraill

Budd-dal / Cynllun	Amodau ar gyfer eu Derbyn	Mwy o Wybodaeth
	▪ nad ydych fel arfer yn byw yng Nghymru ond bod gennych dystysgrif eithrio feddygol ddilys ar gyfer y rhestr gyfredol o gyflyrau meddygol rhagnodedig Ni fydd trigolion o Gymru sydd â Thystysgrif Eithrio Feddygol ddilys ar gyfer cyflwr meddygol penodol yn gorfod talu am eu presgripsiwn, waeth ble yn y DU y caiff y presgripsiwn ei roi neu ei rannu. Cewch y canlynol hefyd am ddim: ▪ Meddygaeth a roddir mewn ysbyty neu ganolfan galw i mewn; ▪ Dulliau atal cenhedlu ar bresgripsiwn, meddyginiaeth a roddir yn bersonol gan feddyg teulu; ▪ Meddyginiaeth sy'n cael ei chyflenwi gan ysbyty ar gyfer trin haint a drosglwyddir yn rhywiol (STI).	
Cychwyn iach	Rydych yn gymwys i Cychwyn Iach os ydych yn o leiaf 10 wythnos yn feichiog neu os oes gennych blentyn o dan bedair oed a ydych chi neu eich get teulu: • Cymhorthdal Incwm, neu • Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm, neu • Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm, neu • Credyd Treth Plant (ond nid Credyd Treth Gwaith, oni bai bod eich teulu yn derbyn Credyd Treth Gwaith yn	Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar: healthystart

Yr Amodau ar gyfer Derbyn Sgil-fudd-daliadau a Sgil-gynlluniau Eraill

Budd-dal / Cynllun	Amodau ar gyfer eu Derbyn	Mwy o Wybodaeth
	rhedeg yn unig *) ac mae ganddo incwm teuluol blynyddol o £16,190 neu lai (2014/15). Byddwch hefyd yn gymwys os ydych o dan 18 oed ac yn feichiog, hyd yn oed os nad ydych yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau uchod neu gredydau treth . *Credyd Treth Gwaith yn rhedeg - yw'r Credyd Treth Gwaith a gewch yn ystod y 4 wythnos yn union ar ôl i chi roi'r gorau i weithio am 16 awr neu fwy yr wythnos (oedolion sengl) neu 24 awr yr wythnos (cyplau).	
TAI		
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	Cafodd ymgeiswyr oedd yn gymwys eu trosglwyddo'n awtomatig o Fudd-dal y Dreth Gyngor i'r Cynlluniau Gostwng y Dreth Gyngor ym mis Ebrill 2013. Fel gyda Budd-dal y Dreth Gyngor, mae teuluoedd sy'n gymwys i gael budd-daliadau allan o waith yn seiliedig ar brawf modd (Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Credyd Pensiwn a Gwarant Credyd Pensiwn) yn parhau i fod yn gymwys yn awtomatig i gael uchafswm y gostyngiad sydd ar gael (100% ar hyn o bryd, llai unrhyw ddidyniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynnol arnynt). Ar gyfer teuluoedd eraill, mae'r swm sy'n gymwys yn cael ei gyfrifo ar sail prawf modd ac mae hynny'n adlewyrchu'r dull a ddefnyddiwyd cyn hynny i gyfrifo'r swm y gellid ei hawlio ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor.	Cewch fwy o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru: council-tax-discounts-and-reduction Llwyth achosion / Gwariant cynllun-gostyngiadaur-dreth-gyngor-adroddiadau-blynyddol
Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl a'r Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau	Mae'n bosibl na fydd gofyn ichi dalu ffioedd ymgeisio os ydych yn derbyn: ▪ Credyd cynhwysol	Cewch fwy o wybodaeth, gan gynnwys ffurflenni i ofyn am beidio â thalu ffioedd, ar wefan Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru:

Yr Amodau ar gyfer Derbyn Sgil-fudd-daliadau a Sgil-gynlluniau Eraill

Budd-dal / Cynllun	Amodau ar gyfer eu Derbyn	Mwy o Wybodaeth
	▪ Cymhorthdal Incwm ▪ Budd-dal Tai ▪ Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm ▪ Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm ▪ Credyd Treth Gwaith os ydy: – Y credyd naill ai'n cynnwys elfen anabledd neu elfen anabledd difrifol (neu'r ddau) neu os yw'n cael ei gyfuno gyda chredyd treth plant a – bod yr incwm blynyddol gros a ddefnyddir i gyfrif y Credyd Treth Gwaith yn £16,190 neu lai (ar gyfer y Tribiwnlys Eiddo Preswyl) neu £14,213 neu lai (ar gyfer y Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau) ▪ Credyd Gwarant o dan Ddeddf Credyd Pensiynau'r Wladwriaeth 2002. ▪ Tystysgrif a roddir o dan y Cod Ariannu (cymorth cyfreithiol) mewn cysylltiad ag achos sydd gerbron y Tribiwnlys, os cafodd y cyfan neu ran ohono ei drosglwyddo o'r Llys Sirol i'r Tribiwnlys.	Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau
TRAFNIDIAETH		
Cynllun y Bathodyn Glas	Bydd hawl awtomatig gennych i fathodyn glas os: ▪ gallwch ddangos llythyr diweddar oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) sy'n cadarnhau bod Taliad	Gallwch ofyn i'ch Awdurdod Lleol am Fathodyn Glas neu gallwch wneud cais ar-lein ar wefan Direct.Gov.

Yr Amodau ar gyfer Derbyn Sgil-fudd-daliadau a Sgil-gynlluniau Eraill

Budd-dal / Cynllun	Amodau ar gyfer eu Derbyn	Mwy o Wybodaeth
	Annibyniaeth Bersonol ar gyfer cynllunio a mynd ar daith [12 pwynt] NEU Daliad Annibyniaeth Bersonol ar gyfradd safonol [8 pwynt neu ragor] wedi'i ddyfarnu ichi. ▪ gallwch ddangos llythyr diweddar gan y DWP sy'n cadarnhau bod cyfradd uwch y Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) ar gyfer cynllunio a mynd ar daith (12 pwynt) NEU y gyfradd safonol am symud o gwmpas (8 pwynt neu fwy) wedi'i dyfarnu ichi. ▪ gallwch ddangos llythyr gan Asiantaeth y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr sy'n cadarnhau'ch bod yn derbyn Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel (WPMS) neu'ch bod yn derbyn taliad gwarant o dan dariffau 1-8 Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog a'ch bod wedi'ch ardystio bod gennych anabledd parhaol neu arwyddocaol sy'n golygu nad ydych yn gallu cerdded neu bod cerdded yn aruthrol o anodd ichi. ▪ oes gennych Dystysgrif Nam ar y Golwg wedi'i llofnodi gan eich Offthalmolegydd Ymgynghorol Fe allech fod yn gymwys am fathodyn glas ar ôl asesiad arall gan eich Awdurdod Lleol os: ▪ gallwch ddangos fod gennych anabledd parhaol neu sylweddol sy'n golygu nad ydych yn gallu cerdded neu fod cerdded yn aruthrol o anodd ichi ▪ oes gennych anabledd difrifol yn eich breichiau a'ch bod yn gyrru car yn rheolaidd ond eich bod yn ei chael yn anodd neu'n amhosib defnyddio meter parcio ac offer tebyg	Bluebadgescheme/

Yr Amodau ar gyfer Derbyn Sgil-fudd-daliadau a Sgil-gynlluniau Eraill

Budd-dal / Cynllun	Amodau ar gyfer eu Derbyn	Mwy o Wybodaeth
	▪ oes gennych blentyn o dan dair oed y mae angen offer meddygol swmpus arno drwy'r amser neu fod angen cerbyd wrth ei ymyl bob amser rhag ofn y bydd angen triniaeth feddygol ar frys ▪ ydych yn gallu dangos o ganlyniad i 'anhwylder meddyliol' nad ydych yn gallu dilyn llwybr taith gyfarwydd heb gymorth person arall.	
Teithio Rhad ar Fws	Mae pawb 60 oed neu fwy, pobl anabl, cyn-aelodau'r lluoedd arfog sydd wedi cael eu hanafu'n ddifrifol a phersonél y lluoedd arfog sydd wedi cael eu hanafu'n ddifrifol o bob oed, sy'n byw yng Nghymru, yn cael teithio am ddim ar wasanaethau bws lleol cofrestredig yng Nghymru.	Cewch fwy o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru: public-transport